Deall eich cyfrifiad treth Hunanasesiad am y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2011

Mae'r daflen hon, ynghyd â'r cyfrifiad treth Hunanasesiad (ffurflen SA302), yn dangos sut rydym wedi cyfrifo eich Treth Incwm ac unrhyw gyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4 (CYG), Treth Enillion Cyfalaf ac Ad-daliadau Benthyciad Myfyriwr sy'n ddyledus am y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2011. Gwiriwch eich cyfrifiad yn ofalus. Os oes unrhyw beth nad ydych yn cytuno ag ef neu yn ei ddeall yna rhowch wybod i ni.

Mae'r symiau i'w talu a'r dyddiadau ar gyfer eu talu ar dudalen 1 y cyfrifiad treth Hunanasesiad. Dylech wirio'r rhain oherwydd efallai na fydd amser gennym i anfon Datganiad o Gyfrif atoch cyn unrhyw ddyddiad talu penodol.

Efallai y byddwch wedi talu rhai o'r symiau hyn eisoes. Edrychwch ar eich Datganiad o Gyfrif diwethaf, neu defnyddiwch y gwasanaeth Hunanasesiad Ar-lein. (I gael mwy o wybodaeth ynglŷn â'r gwasanaeth hwn ewch i **www.hmrc.gov.uk** a dewiswch *Online services info*.)

Sut rydym wedi cyfrifo eich treth

Cam 1 *rydym yn ychwanegu at ei gilydd eich holl incwm sy'n agored i dreth*

Dyma gyfanswm eich incwm. Mae rhestr o incwm sy'n drethadwy ar ein gwefan. Ewch i **www.hmrc.gov.uk/incometax/taxable-income.htm**

Mae rhai o'r manylion a gofnodir ar eich Ffurflen Dreth, er enghraifft 'Llog y DU ac ati a drethwyd' a 'Difidendau o gwmnïau'r DU', yn rhoi'r swm a gawsoch ar ôl didynnu treth. Y swm sy'n drethadwy yw'r swm cyn didynnu treth ac felly rydym yn 'grosio'r swm a gawsoch i roi'r swm cyn treth. Caiff y llog a dderbynnir ei grosio ar 100/80, difidendau ar 100/90. (Rhoddir y gwahaniaeth rhwng y swm ar ôl iddo gael ei grosio sy'n agored i dreth a'r swm a gawsoch yn nes ymlaen yn y cyfrifiad fel credyd treth.) Ewch i **www.hmrc.gov.uk/taxon/uk.htm** i gael mwy o fanylion.

Cam 2 *rydym yn didynnu rhyddhad sy'n gostwng eich incwm a lwfansau rhydd o dreth o gyfanswm eich incwm; gelwir y gweddill yn incwm trethadwy*

Y lwfans rhydd o dreth fwyaf cyffredin yw'r Lwfans Personol, ond mae rhai eraill ar gael. Yn 2010-11 mae'r Lwfans Personol yn £6,475, ond caiff ei ostwng gan £1 am bob £2 y mae eich incwm yn uwch na £100,000.
Nid yw Lwfans Personol ar gael i rai trethdalwyr penodol pan nad ydynt yn preswylio a phan nad yw eu domisil yn y DU. Os ydych yn hunangyflogedig, a gwnaeth eich busnes golled, efallai y gallwch hawlio'r golled hon fel didyniad o incwm arall. Gallwch weld rhestr o'r lwfansau a rhyddhad cyffredin ar ein gwefan. Ewch i **www.hmrc.gov.uk/incometax/intro-tax-allow.htm**

Cam 3 *yna codir treth ar eich incwm trethadwy*

Caiff cyfanswm eich incwm trethadwy ei ddyrannu rhwng pedair haen dreth. Terfyn yr haen gyntaf yw £2,440. Pan ddefnyddir y £2,440 hwn, dyrannir eich incwm i'r haen (cyfradd sylfaenol) nesaf. Pan gyrhaeddir ei derfyn o £34,960 dyrannir eich incwm i'r haen (cyfradd uwch) nesaf. Pan gyrhaeddir ei derfyn o £112,600 codir treth ar y gweddill ar y cyfraddau ychwanegol a welir ar y tabl ar dudalen 2.

O fewn pob haen mae'r cyfraddau treth yn amrywio yn unol â'r math o incwm. Caiff incwm trethadwy ei ddyrannu i bob haen yn olynol, fel y dangosir yn y tabl.

Mae incwm nad yw'n deillio o gynilion yn dod yn gyntaf, yna incwm o gynilion, yna difidendau ac yn y blaen. Gosodir y £2,440 yn gyntaf yn erbyn incwm nad yw'n deillio o gynilion. Dim ond os oes gennych incwm trethadwy nad yw'n deillio o gynilion sy'n is na £2,440 y bydd gweddill y gellir ei osod yn erbyn incwm trethadwy sy'n deillio o gynilion. Os yw eich incwm trethadwy nad yw'n deillio o gynilion a'ch incwm trethadwy sy'n deillio o gynilion gyda'i gilydd yn is na £2,440, gellir gosod y gweddill yn erbyn difidendau trethadwy. Mae'r un rheol yn berthnasol ar gyfer yr haenau cyfraddau nesaf sef £34,960 a £112,600.

Codir gwahanol fathau o incwm ar wahanol gyfraddau treth.
Codir treth arnynt yn y drefn a ddangosir isod (incwm nad yw'n deillio o gynilion yn gyntaf)

Math o incwm	Haen dreth			
	Y £150,000 o incwm trethadwy			Gweddill yr incwm trethadwy
	Y £37,400 o incwm trethadwy		Y £112,600 nesaf	
	Y £2,440 cyntaf	Y £34,960 nesaf*		
Incwm nad yw'n deillio o gynilion *Er enghraifft, incwm o gyflogaeth neu hunangyflogaeth, incwm drwy osod eiddo*	20%	20%	40%	50%
Incwm o gynilion *Gan gynnwys llog o fanc a chymdeithas adeiladu*	10%	20%	40%	50%
Difidendau a chredydau treth	10%	10%	32.5%	42.5%
Cyfandaliadau trethadwy	20%	20%	40%	50%
Enillion ar bolisïau yswiriant bywyd pan gaiff treth ei thrin fel petai wedi'i thalu	10%	20%	40%	50%

** Cynyddir y ffigur o £37,400 gan rai taliadau penodol y byddwch wedi eu talu, er enghraifft, taliadau Rhodd Cymorth a'r rheiny a delir i gynllun pensiwn personol lle rydych eisoes wedi cael rhyddhad ar y gyfradd sylfaenol ar adeg eu talu. Mae cynyddu'r terfyn o £37,400 yn golygu y gostyngir y swm a drethir ar y gyfradd uwch gan ganiatáu rhyddhad treth llawn i chi. Nid yw'r cynnydd yn gymwys i'r £2,440 cyntaf o incwm trethadwy, dim ond i'r £147,560 (£34,960 + £112,600) nesaf.*

Tair enghraifft o sut y caiff incwm ei ddyrannu i gyfraddau treth:

Enghraifft 1	Incwm	Lwfansau	Incwm trethadwy	Y £2,440 cyntaf a godir ar **20%**	Y £34,960 nesaf a godir ar **20%**	Y gweddill a godir ar **40%**
Incwm nad yw'n deillio o gynilion	£36,000	£6,475	£29,525	£2,440	£27,085	
	Incwm	Lwfansau	Incwm trethadwy	swm a godir ar **10%**	swm a godir ar **20%**	swm a godir ar **40%**
Incwm o gynilion	£8,000		£8,000		£7,875	£125

Enghraifft 2	Incwm	Lwfansau	Incwm trethadwy	Y £2,440 cyntaf a godir ar **20%**	Y £34,960 nesaf a godir ar **20%**	Y gweddill a godir ar **40%**
Incwm nad yw'n deillio o gynilion	£8,000	£6,475	£1,525	£1,525		
	Incwm	Lwfansau	Incwm trethadwy	swm a godir ar **10%**	swm a godir ar **20%**	swm a godir ar **40%**
Incwm o gynilion	£36,000		£36,000	£915	£34,960	£125

Enghraifft 3	Incwm	Lwfansau	Incwm trethadwy	Y £2,440 cyntaf a godir ar **20%**	Y £34,960 nesaf a godir ar **20%**	Y £112,600 nesaf a godir ar **40%**	Y gweddill a godir ar **50%**
Incwm nad yw'n deillio o gynilion	£80,000	£0*	£80,000	£2,440	£34,960	£42,600	
	Incwm	Lwfansau	Incwm trethadwy	swm a godir ar **10%**	swm a godir ar **20%**	swm a godir ar **40%**	swm a godir ar **50%**
Incwm o gynilion	£36,000		£36,000			£36,000	
	Incwm	Lwfansau	Incwm trethadwy	swm a godir ar **10%**	swm a godir ar **20%**	swm a godir ar **32.5%**	swm a godir ar **42.5%**
Incwm difidendau	£48,000		£48,000			£34,000	£14,000

Gostyngir y Lwfans Personol gan £1 am bob £2 y mae cyfanswm yr incwm dros £100,000. Gan fod cyfanswm yr incwm yn £164,000, cafodd y Lwfans Personol ei ostwng i sero.

Cam 4 *rydym yn addasu'r dreth a godwyd*

Caiff y rhain eu cyfrifo fel symiau o dreth a ddefnyddir i ostwng neu gynyddu'r dreth a godir.
Ni all yr addasiadau sy'n gostwng y dreth sy'n ddyledus ynddynt eu hunain greu ad-daliad; gallant ostwng y dreth sy'n ddyledus i sero, ond collir symiau ar ôl hynny. Dyma rai o'r addasiadau a allai ymddangos ar eich cyfrifiad treth Hunanasesiad.

Rhodd Cymorth

Os ydy'ch Treth Incwm a'ch Treth Enillion Cyfalaf am y flwyddyn yn llai na'r dreth a chaiff ei thrin fel treth a ddidynnwyd o daliadau Rhodd Cymorth, mae'n rhaid i ni gynyddu eich treth i gyfateb â'r dreth a ad-dalwn i'r elusen. Gwnawn hyn drwy ostwng eich lwfansau personol er mwyn cynyddu'r dreth a dalwch. Cyfrifir y dreth derfynol sy'n ddyledus gan ddefnyddio'r ffigurau gostyngol. Y lwfansau a ddangosir yn y cyfrifiad yw'r lwfansau a hawliwyd gennych cyn i ni wneud yr addasiad hwn.

Lwfans pâr priod

Os ydych yn briod neu wedi ffurfio partneriaeth sifil, a chawsoch chi neu eich priod neu'ch partner sifil eich geni cyn 6 Ebrill 1935, gallwch hawlio Lwfans Pâr Priod.

Caiff ei hawlio gan y gŵr (os priodwyd ef cyn 5 Rhagfyr 2005) neu'r priod/partner sifil sydd â'r incwm uchaf. Os yw incwm yr un sy'n hawlio yn uwch na £22,900 caiff y lwfans ei ostwng £1 am bob £2 y mae'r incwm yn uwch na'r terfyn, (ond ni chaiff y lwfans ei ostwng o dan yr isafswm o £2,670). Mae'r rhyddhad treth yn 10% gwerth y lwfans. Er enghraifft, gall lwfans o £2,670 roi gostyngiad treth incwm o hyd at £267.

Treth a chaiff ei thrin fel petai wedi'i thalu

Ystyrir y dreth a chaiff ei thrin fel petai wedi'i thalu ar rai enillion sy'n codi ar bolisïau yswiriant ac incwm penodol arall yn un 'tybiannol'. Golyga hyn y gellir ei wrthbwyso yn erbyn y dreth sy'n ddyledus ar yr incwm hwn, ond ni ellir ei ad-dalu i chi.

Credydau treth o 10% ar ddifidendau o gwmnïau'r DU a chredydau treth o 10% ar ddifidendau tramor cymwys

Ychwanegir y credyd treth at y swm a gawsoch i gyfrifo'r swm sy'n agored i dreth. Gellir defnyddio'r credyd treth o 10% sydd ynghlwm wrth ddifidend i fodloni'r dreth sy'n ddyledus ar eich incwm difidend. Os trethir eich difidendau ar 10%, bydd y credyd treth yn sicrhau na fydd mwy o dreth yn daladwy ar yr incwm hwn. Ni ellir byth ad-dalu'r credyd treth i chi – gellir ei ddefnyddio yn erbyn eich bil treth yn unig.

Tandaliad treth ar gyfer blynyddoedd cynharach a gynhwyswyd yn eich cod treth TWE ar gyfer 2010-11

Dyma'r dreth sydd arnoch o flwyddyn dreth gynharach ac a gasglwyd gennym drwy eich cod treth TWE ar gyfer 2010-11. Mae rhan o'r dreth a ddidynnir yn eich cyfrifiad treth yn perthyn i flwyddyn gynharach.

Tandaliad treth ar gyfer 2010-11 a gynhwyswyd yn eich cod treth ar gyfer 2011-12

Dyma'r dreth sydd arnoch a gesglir gennym drwy eich cod treth TWE ar gyfer blwyddyn ddiweddarach. Oherwydd y cesglir y swm hwn drwy eich cod TWE, rydym wedi ei ddidynnu er mwyn pennu'r dreth sy'n ddyledus ar gyfer 2010-11.

Cam 5 *rydym yn addasu'r dreth a godwyd*

Dyma'r dreth a ddidynnwyd cyn i chi dderbyn yr incwm, er enghraifft:

- Treth Incwm a delir drwy TWE
- Treth Incwm a ddidynnir o log o'r banc ac ati.

(Y llog a drethwyd a nodwyd ar eich ffurflen dreth yw'r swm a gewch ar ôl didynnu treth. Rydym yn grosio'r symiau a gewch ar ôl didynnu treth gan 100/80. Y gwahaniaeth rhwng y swm gros a'r swm a gewch yw'r dreth a dalwyd gennych yn barod).

Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys:

- didyniadau CIS a dalwyd gan isgontractwyr yn y diwydiant adeiladu
- treth a ddidynnwyd o daliadau a dderbyniwyd oddi wrth Ymddiriedolaeth neu Ystâd.

Cam 6 *rydym yn ychwanegu trethi a symiau eraill sy'n daladwy drwy Hunanasesiad*

Mae'r rhain yn cynnwys:

- cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4
- Treth Enillion Cyfalaf
- Ad-daliadau Benthyciad Myfyriwr (os ydych yn fenthyciwr Benthyciad Myfyriwr sy'n amodol ar incwm)

Mae'r rhain yn cynyddu'r swm sy'n ddyledus. Os ydych wedi talu gormod o dreth incwm byddwn yn gosod yr hyn sydd dros ben yn erbyn y symiau eraill sy'n ddyledus. Os ydych wedi talu gormod o dreth incwm o hyd ar ôl y gwrth bwysiadau hyn, byddwn yn adolygu'r swm sydd dros ben. Os oes arnoch fwy o dreth nag ydych wedi ei thalu byddwn yn gadael i chi wybod sut fyddwn yn casglu'r dreth sy'n ddyledus.

Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4

Os ydych yn hunangyflogedig, yn Danysgrifennwr Lloyds, neu mewn partneriaeth fusnes, mae'n debygol y byddwch yn agored i gyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4 ar yr elw sy'n deillio o'r busnesau hynny.

Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 4	**Elw rhwng £5,715 a £43,875**	**Elw dros £43,875**
Y**n drethadwy ar elw o hunangyflogaeth neu bartneriaeth**	8%**	1%

***Os cawsoch ganiatâd i ohirio talu gan y Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol a Chyflogwyr (NICO&EO), bydd y cyfrifiad treth yn codi 1% ar yr holl elw dros £5,715. Adolygir cyfanswm y cyfraniadau Yswiriant Gwladol gan Wasanaeth Gohirio Swyddfa Cyfraniadau Yswiriant Gwladol a Chyflogwyr.*

Treth Enillion Cyfalaf

Ni ellir gosod Lwfansau Personol yn erbyn enillion cyfalaf ond mae gan y mwyafrif o breswylwyr y DU yr hawl i Swm Blynyddol a Eithrir o £10,100 sy'n gostwng swm yr Enillion Cyfalaf sy'n agored i dreth.

Mae cyfraddau Treth Enillion Cyfalaf ar gyfer 2010-11 fel a ganlyn:

Pob ennill cyfalaf sy'n codi cyn 23 Mehefin 2010	18%
Enillion o 23 Mehefin 2010 sy'n gymwys am Ryddhad Mentrwr	10%
Enillion eraill o 23 Mehefin 2010 • a drethir o dan drothwy'r gyfradd uwch† • a drethir uwchben trothwy'r gyfradd uwch†	 18% 28%

†Gellir gosod unrhyw weddill yr haen gyfradd sylfaenol (£37,400) sydd heb ei ddefnyddio gan incwm yn erbyn enillion cyfalaf sy'n codi ar ôl 23 Mehefin 2010.

Er enghraifft, byddai rhywun sydd â chyfanswm incwm o £30,000 yn cael ei incwm/hincwm wedi ei ddyrannu/dyrannu fel a ganlyn

Enghraifft 4 (incwm)	Incwm	Lwfansau	Incwm trethadwy	Y £2,440 cyntaf	Y £34,960 nesaf
Cyfanswm yr incwm	£30,000	£6,475	£23,525	£2,440	£21,085

Byddai ganddo £13,875 (£37,400 llai £23,525) o haen y gyfradd sylfaenol sydd ar gael i unrhyw enillion trethadwy. Petai ganddo/ganddi Enillion Cyfalaf o £50,000 yna byddai £13,875 yn agored i dreth ar 18% a'r gweddill ar 28%.

Enghraifft 4 (ennill)	Enillion Cyfalaf	Swm Blynyddol a Eithrir	Trethadwy	Swm a godir ar **18%**	Swm a godir ar **28%**
Enillion ar ôl 23 Mehefin 2010	£50,000	£10,100	£39,000	£13,875	£26,025

Mae enillion o 23 Mehefin 2010 sy'n cymhwyso ar gyfer Rhyddhad Mentrwr yn cael blaenoriaeth dros enillion eraill ar gyfer defnyddio haen cyfradd sylfaenol sydd heb ei defnyddio.

Felly, os oedd gan y person uchod ennill o £10,000 hefyd sy'n gymwys am Ryddhad Mentrwr, byddai'n cael ei osod yn y lle cyntaf yn erbyn y £13,875 sydd heb ei ddefnyddio yn yr haen cyfradd sylfaenol. Byddai hynny'n gostwng swm yr ennill trethadwy arall ar 18% i £3.875 gyda'r gweddill yn cael ei drethu ar 28%.

Ad-daliadau Benthyciad Myfyriwr

Rydych yn talu 9% ar eich incwm sydd dros £15,000. At ddibenion Benthyciad Myfyriwr mae eich incwm yn cynnwys eich holl enillion (incwm o gyflogaeth, hunangyflogaeth ac ati), yn ogystal â'ch incwm buddsoddi (llog banc, difidendau ac ati) os yw'r cyfanswm yn fwy na £2,000.

Rydym yn gostwng swm yr ad-daliad Benthyciad Myfyriwr sy'n ddyledus drwy Hunanasesiad o ganlyniad i unrhyw ad-daliadau Benthyciad Myfyriwr a ddidynnwyd gan eich cyflogwr. Dim ond y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr all gywiro unrhyw ordaliad o Fenthyciadau Myfyrwyr.